



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 27AIN TACHWEDD, 2019** am **5.00 PM**.

**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I AMLINELLU YN
EITEM 13(A)**

CYFARFOD O'R CYNGOR – 27 TACHWEDD, 2019
**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I AMLINELLU YN
EITEM 13(A) O AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r Cyngorwyr P Jarman (Cynigydd) & G R Davies (Eilydd), E. Webster, J.Davies, J.Cullwick, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, D.Grehan, E.Griffiths, K.Morgan, S.Rees Owen, M.Weaver, S.Evans, A. Chapman, L.Jones ac E.Stephens

Mae ein cymunedau wedi defnyddio Tân Gwyllt i ddathlu achlysuron fel Noson Tân Gwyllt a Nos Galan yn ein cymunedau ers blynyddoedd maith. Mae effaith Tân Gwyllt yn peri pryder cynyddol i breswylwyr sydd, naill ai'n berchen ar anifeiliaid anwes, **{Ychwanegu - neu sy'n bobl agored i niwed sy'n byw ag awtistiaeth,}** neu wedi gweithio yn y Lluoedd Arfog ac yn dioddef o PTSD.

Mae RSPCA Cymru wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a pheri llai o niwed a straen i anifeiliaid drwy gynig mabwysiadu polisi sy'n arddel gwerthu tân gwyllt yn gyfrifol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â tân gwyllt tawel, a fyddai'n gyfaddawd sy'n gadael i'n cymunedau ddathlu achlysuron allweddol, gan sicrhau bod hynny'n digwydd mewn modd sensitif a pharchus.

Mae'r Cyngor felly'n gofyn am adroddiad Swyddog i'w ystyried gan y Cabinet, sy'n amlinellu sut y mae modd i'r awdurdod lleol yma gefnogi ymgyrch yr RSPCA trwy:

- Ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i bob achlysur tân gwyllt cyhoeddus o fewn ffin yr awdurdod lleol gael ei hysbysebu ymlaen llaw, gan roi cyfle i breswylwyr gymryd camau i ddiogelu eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.

- Ystyried lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed - gan gynnwys gwybodaeth am sut i leihau'r risgiau

- Ystyried annog cyflenwyr tân gwyllt lleol i werth tân gwyllt sy'n fwy tawel, a hynny ar gyfer achlysuron cyhoeddus yn unig.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn cytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ei annog i ddefnyddio unrhyw rym o fewn ei allu i leihau'r effaith negyddol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i nosweithiau tân gwyllt.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r ymrwymiad cryf i les anifeiliaid y mae'r awdurdod eisoes wedi'i arddel drwy gefnogi ymgyrch Lucy's Law, yn ogystal â'i ymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd noson sinema ei chynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr ar Noson Tân Gwyllt eleni er budd cyn-filwyr sy'n byw gyda PTSD.

Mae'r Cyngor yma'n nodi bod Pwyllgor Nos Galan wedi arwain ar y gwaith yma drwy gytuno i ailystyried y defnydd o dân gwyllt yn yr achlysur ar gyfer 2020/2021.

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Mae ein cymunedau wedi defnyddio Tân Gwyllt i ddathlu achlysuron fel Noson Tân Gwyllt a Nos Galan yn ein cymunedau ers blynnyddoedd maith. Mae effaith Tân Gwyllt yn peri pryder cynyddol i breswylwyr sydd, naill ai'n berchen ar anifeiliaid anwes, neu sy'n bobl agored i niwed sy'n byw ag awtistiaeth, neu wedi gweithio yn y Lluoedd Arfog ac yn dioddef o PTSD.

Mae RSPCA Cymru wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a pheri llai o niwed a straen i anifeiliaid drwy gynnig mabwysiadu polisi sy'n arddel gwerthu tân gwyllt yn gyfrifol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â thân gwyllt tawel, a fyddai'n gyfaddawd sy'n gadael i'n cymunedau ddathlu achlysuron allweddol, gan sicrhau bod hynny'n digwydd mewn modd sensitif a pharchus.

Mae'r Cyngor felly'n gofyn am adroddiad Swyddog i'w ystyried gan y Cabinet, sy'n amlinellu sut y mae modd i'r awdurdod lleol yma gefnogi ymgyrch yr RSPCA trwy:

- Ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i bob achlysur tân gwyllt cyhoeddus o fewn ffin yr awdurdod lleol gael ei hysbysebu ymlaen llaw, gan roi cyfle i breswylwyr gymryd camau i ddiogelu eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.

- Ystyried lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed - gan gynnwys gwybodaeth am sut i leihau'r risgiau

-Ystyried annog cyflenwyr tân gwyllt lleol i werth tân gwyllt sy'n fwy tawel, a hynny ar gyfer achlysuron cyhoeddus yn unig.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn cytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ei annog i ddefnyddio unrhyw rym o fewn ei allu i leihau'r effaith negyddol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i nosweithiau tân gwyllt.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r ymrwymiad cryf i les anifeiliaid y mae'r awdurdod eisoes wedi'i arddel drwy gefnogi ymgyrch Lucy's Law, yn ogystal â'i ymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd noson sinema ei chynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr ar Noson Tân Gwyllt eleni er budd cyn-filwyr sy'n byw gyda PTSD.

Mae'r Cyngor yma'n nodi bod Pwyllgor Nos Galan wedi arwain ar y gwaith yma drwy gytuno i ailystyried y defnydd o dân gwyllt yn yr achlysur ar gyfer 2020/2021.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor